| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Mehefin 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Reolwr: Cefnogaeth Fusnes** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2014/15** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae pob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn gorfod llunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwyntiau ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a gwelliannau i'w blaenoriaethu.

1.2. Mae adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2014/2015 yn Atodiad 1. Diben yr adroddiad yw rhoi darlun teg i'r cyhoedd o wasanaethau Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I alluogi Aelodau graffu ar yr adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i AGGCC erbyn diwedd mis Mehefin 2015.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod yr Aelodau'n ystyried a:

- ydi'r adroddiad yn darparu cyfrif clir o berfformiad yn 2014/15;
- ydi'r adroddiad yn codi unrhyw faterion/pryderon am berfformiad y mae angen archwilio pellach.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn dangos ein bod wedi parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel yn ystod 2014/15, a'n bod wedi cyflawni rhywfaint o berfformiad ardderchog mewn meysydd sy'n bwysig i'n cymunedau. Rydym hefyd wedi parhau i wneud cynnydd go iawn i gyrraedd ein nod a thrawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r heriau hynny ac i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

4.2. Wrth gwrs, ni fu i bopeth fynd rhagddo fel y dylai ac mae'r adroddiad yn nodi nifer o feysydd y gallem eu gwella. Fodd bynnag, mae gennym gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at gyflawni ar y ddwy flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:

- Pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl; a
- Moderneiddio'r Cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oedd cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ei hun yn costio unrhyw beth (heblaw am amser y swyddogion), ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol a nodwyd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno o fewn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, mae rhai o'r themâu a gwmpesir yn yr adroddiad, ee cefnogi annibyniaeth a gwella lles, yn agendâu corfforaethol yn hytrach na chyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Ar gyfer y Cyngor cyfan, bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein holl wasanaethau, er enghraifft gwasanaethau tai, priffyrdd, cynllunio, gwasanaethau amgylcheddol a hamdden, wedi eu cynllunio i hyrwyddo annibyniaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2014/15, ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad yn effeithio ar bobl â nodweddion a ddiogelir. Fodd bynnag, o ran y cynlluniau yn y dyfodol a grybwyllwyd yn yr adroddiad, bydd angen AEC ar gyfer unrhyw benderfyniadau/newid a fydd yn effeithio ar bobl â nodweddion a ddiogelir. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar gyfer pob prosiect unigol yn ôl y galw.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1. Rydym ni wedi casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â'n gwasanaethau fel rhan o'n system sicrwydd ansawdd presennol.

8.2. Cynigir y bydd yr adroddiad drafft yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid (ee, iechyd, 3ydd sector) i gael sylwadau, a hefyd at gydweithwyr yn Sir y Fflint fel rhan o drefniant adolygu cymheiriaid gan ein bod wedi cytuno i weithredu fel "cyfaill beirniadol" mewn perthynas ag adolygu adroddiadau drafft ein gilydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach y cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae cofrestr risg manwl ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Busnes ac ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Gan fod hwn yn adroddiad am Wasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, caiff unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a drafodir gan yr adroddiad hwn (a chamau gweithredu i liniaru a rheoli nhw) eu cynnwys yn y cofrestri risg gwasanaeth.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Canllaw Statudol ar Swyddogaeth a Chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

11.2. Mae Erthygl 6.3.4 (b) yn gosod pwerau archwilio o ran monitro perfformiad ac amcanion polisi.

**Swyddog Cyswllt:**

Prif Reolwr - Cefnogi Busnes

Rhif Ffôn:............................................ 07825 451448